

Polisi Amgylcheddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC)

1. Cefndir a Chyflwyniad

Y Polisi hwn yw datganiad a cynllun gweithredu EBC ar yr amgylchedd. Fel Eglwys rydym yn ymrwymo i ofalu am greadigaeth Duw, drwy fuddsoddi'n fwriadol i leihau ein ôl troed carbon, cynyddu ailgylchu, lleihau gwastraff a gwella effeithiolrwydd ein defnydd o adnoddau naturiol yn y byd. Mae cyfiawnder wrth galon yr Efyngyl, ac y mae a wnelo cyfiawnder hinsawdd hefyd â chyfiawnder cymdeithasol yn ein byd. Rydym yn cydnabod fod effeithiau dwysaf newid hinsawdd yn effeithio ar wledydd a chymunedau tlotaf ein byd. Drwy sefyll yn erbyn anghyfiawnder hinsawdd, a cymryd cyfrifoldeb ein hunain, yr ydym fel Eglwys, ac fel creadigaeth gyfan yn canmol a gogoneddu Duw ein creawdwr.

Yr ydym yn cydnabod arwyddocâd Cytundeb Paris, Rhagfyr 2015 o dan yr *United Nations Framework Convention on Climate Change (UNFCCC)*. Un peth sydd yn deillio o'r Cytundeb yw gosod nod i gadw'r 'cynnydd yn y tymheredd byd-eang ar gyfartaledd llawer is na'r codiad o 2°C uwchlaw'r lefelau cyn-ddiwydiannol ac i geisio cyfyngu'r codiad tymheredd 1.5°C uwchlaw'r lefelau cyn-ddiwydiannol'¹ gan gydnabod y byddai hyn yn lleihau peryglon ac effeithiau newid hinsawdd yn sylweddol.

2. Lleihau ein ôl-troed carbon

- 2.1 Wrth i ni feddwl am y nodau ac amcanion sydd i'w gweld yn ein Llawlyfr Trefn a Rheolau o dan 1.1 'Gwarchod ein hamgylchedd ym mhob ffordd posib', mae EBC yn ailddatgan ei haddewid i leihau ei hól-troed carbon (cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o weithgarwch y Corff) ac i ymdrechu i warchod ac adfer yr amgylchedd.
- 2.2 Mae'r Eglwys yn cydnabod bod yr addewid hwn yn galw am i aelodau unigol drafod hyn a thrawsnewid ein strwythurau mewnol.^{2 3 4}
- 2.3 **Felly, fel cynulleidfa oedd byddwn yn :**
 - a) Torri ar yr allyriadau carbon sy'n deillio o'n ffordd o fyw trwy fesur yr allyriadau hyn yn bersonol ac i ddod o hyd i strategaethau addas. (ee peidio defnyddio plastic a ddefnyddir unwaith)
 - b) Cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar ofalu am yr amgylchedd;
 - c) Sicrhau bod tir sy'n eiddo i eglwysi yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hybu gwerthfawrogiad o natur ac sy'n ychwanegu at yr amgylchedd a'i warchod;
 - d) Sicrhau ein bod yn defnyddio ynni yn effeithiol a bod ein hadeiladau yn ecologyfeillgar drwy ddefnyddio technoleg arbed-ynni, a thrwy adnabod a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddol fel bo'n briodol;

¹ <http://unfccc.int/resource/docs/2015/cop21/109r01.pdf>

⁴ https://www.uroc.org.uk/what_we_do/mission/documents/vision2020genlassembly_report.pdf

³ Hope in God's Future, p.4.

⁴ <http://arocha.org.uk/our-activities/living-lightly-take-action>.

- e) Codi ymwybyddiaeth, trwy weddi, pregeth, Astudiaethau Beiblaidd, dysgeidiaeth a thrafodaeth ar gyfiawnder hinsawdd;
- f) Cefnogi ymgyrchoedd a gweithredu cyffredinol mewn perthynas â newid hinsawdd fel bo'n briodol;
- g) Defnyddio (a gwerthu) nwyddau Masnach Deg yn ein hadeiladau;
- h) Gwresogi a goleuo'r adeilad dim ond pan y mae rhai yn bresennol ynddo. Yn ogystal ac annog cynulleidfaoedd i ddod gyda'i gilydd i gyd addoli, yn hytrach na gwresogi ystafelloedd mawr gyda ychydig yn bresennol.
- i) ceisio ennill statws 'Eglwys Eco /Eco-Church'⁵

2.4 Fel Henaduriaethau byddwn yn :

- a) annog ein heglwysi i ennill statws 'Eglwys Eco / Eco-Church'; wrth wneud hyn byddant yn annog eglwysi i weld y manteision cadarnhaol a geir yng nghyd-destun yr arbedion ariannol a ddaw wrth fod yn ecogyfeillgar;
- b) sicrhau bod ein hadeiladau, gan gynnwys tai gweinidogion, yn ecogyfeillgar drwy ddefnyddio technoleg arbed ynni ac adnabod a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddol fel bo'n briodol;
- c) annog ein heglwysi i gydweithio gyda grwpiau trawsnewid neu grwpiau cynaliadwyaeth lleol neu i fynd ati i sefydlu grwpiau tebyg;
- ch) annog ein heglwysi i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth ar faterion megis cyfiawnder hinsawdd a gofal amgylcheddol;
- d) penodi un neu fwy o aelodau'r Henaduriaeth i fonitro unrhyw gynnydd o ran gweithredu'r polisi hwn o fewn yr Henaduriaeth;
- dd) Caniatáu i ryddhau hyd at 40% o gost gosod system ynni cynaliadwy o gronfa strategaeth yr henaduriaeth.
- e) Ychwanegi pwynt ar asesu pa mor eco-gyfeillgar yw ein hadeiladau yn ein cynllun strategaeth fel henaduriaethau.

2.5 Fel Cymanfa byddwn yn :

- a) dad-fuddsoddi mewn cwmnïau sydd naill ai yn parhau i dynnu tanwydd ffosil o'r ddaear, neu sydd heb ymrwymiad clir i leihau eu hol troed carbon. Byddwn yn gwneud hyn gyda'n partneriaid eglwysig, ac yn arbennig drwy dderbyn cyngor mudiadau megis y '*Transition Pathway Initiative*'
- b) cynnig grantiau /telerau arbennig i weinidogion a gweithwyr y Cyfundeb wrth prynu ceir Hybrid neu drydan.
- c) sicrhau bod adeiladau yn ecogyfeillgar drwy ddefnyddio technoleg arbed ynni ac adnabod a defnyddio ffynonellau adnewyddol fel bo'n briodol;
- d) Lleihau teithio i gyfarfodydd mewn ceir ac awyrennau a gwneud defnydd o fideogynadledda. Gan gadw pellter a chostau mewn cof, anogir aelodau unigol i ddefnyddio cludiant sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd - beicio, defnyddio

⁵ [www.ecochurch.arocha.org.ukpopular

trenau a bysiau, rhannu ceir a defnyddio cerbydau ynni-effeithiol pan fo hynny'n bosib. Anogir yr aelodau i fabwysiadu'r arfer o osod y carbon a ddefnyddir ganddynt wrth wneud teithiau angenrheidiol yn erbyn cyfraniad ariannol at brosiectau cynaliadwy (e.e. drwy'r cynllun *Climate Stewards*);⁶

- e) Ni fydd costau teithio yn cael ei dalu i fwy nac un car ddod o'r un ardal i gyfarfod Cyfundebol (hyd at 4 person). Disgwylir i aelodau unigol a elwir i gyfarfod drefnu i gyd deithio gyda aelod arall cyfagos i gyfarfod neu bwyllgor.
- f) i hyrwyddo diwinyddiaeth amgylcheddol.
- g) Ni fyddwn yn printio dogfennau ar gyfer llysoedd yr Eglwys, oni bai fod cais arbennig gan unigolyn wedi cael ei wneud.

3. Adnoddau

Yr ydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r canlynol:

Eco-Church, pecyn cymorth amgylcheddol sy'n cynnig rhwydwaith o gefnogaeth i gynulleidfaoedd lleol: www.ecochurch.arocha.org.uk.

Operation Noah: <http://operationnoah.org>;

Y Transition Pathway Initiative - <https://www.transitionpathwayinitiative.org/overview>

- Green Christian (formerly Christian Ecology Link): www.greenchristian.org.uk;
- A Rocha: <http://arocha.org.uk>;
- Climate Stewards: www.climatestewards.org;
- 'Time for Creation' (Cyngor Eglwysi'r Byd / World Council of Churches): www.oikoumene.org/en/what-we-do/climate-change/time-for-creation).
- Greening Church Buildings (Eco-Congregation Scotland): www.ecocongregationscotland.org/wp-content/uploads/2012/11/Greening-Church-Buildings.pdf;
- Hope in God's Future: Christian Discipleship in the Context of Climate Change - adroddiad grŵp gwaith ar newid hinsawdd a diwinyddiaeth a luniwyd ar y cyd gan Undeb y Bedyddwyr, Prydain, yr Eglwys Fethodistaidd a'r URC (Peterborough: Methodist Publishing, 2009);
- Laudato si', cylchlythyr y Pab Francis (2015);
- Nick Spencer & Robert White, Christianity, Climate Change and Sustainable Living (London: SPCK, 2007);

hyrwyddo cyswllt gyda threfi trawsnewid ayyb: www.greenchristian.org.uk/churches-in-transition.

⁶ www.climatestewards.org